

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Awst 2020

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Broses cyfethol i ward Glasinfryn
4. Derbyn cofnodion 14eg o Orffennaf 2020
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
7. Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol
8. Materion y Clerc
 - a. ROSPA
 - b. Llyfr Archebu
 - c. Ad-daliad Ink a papur Cartridge People - £74.98 yn cynnwys £12.50 TAW
9. Materion y Cyngorwyr
 - a. Cyng H Griffiths Gordyfiant ar y llwybr ceffyla o Penhower Uchaf i Lon Cytir – Gordyfiant hefyd ar y Lon Gefn o Fferm Glasinfryn i gyfeiriad Minffordd a sbwriel ar lon Penhower ers Mis – Canghennau Coed Isel ar y ffordd o Pencefn i gyfeiriad Waen Wen
 - b. Cyng J Griffiths Cod Post ardal Waen Wen dal yn achosi problemau a'r tyllau ar ffordd drwy hen bentref Glasinfryn wedi cael sylw erbyn hyn
 - c. Cyng M Lynch wedi derbyn cwyn ynglyn a dwr ar lwybr cyhoeddus Lon Llanerch
 - d. Cyng M Baines Goetre Uchaf

Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd yn rhithiol Nos Iau 16^{eg} o Orffennaf 2020
am 7.00pm**

Presennol:

Y Cyng. M Lynch, Eleri Jones, B Jones, M Baines, J Pierce, D Jones-Morris a D W Jones.
Elwyn Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths, L. A . James, H Griffiths a T Anwyl-Williams

Ethol Cadeirydd i'r cyfarfod

Cyfarfod yn dilyn Cyf Cyff Blynnyddol oedd hwn a parhaodd Cyng D W Jones i gadeirio ymlaen.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant fyddai'n cael ei gofnodi gan y Clerc.

Broses cyfethol i ward Glasinfryn

Daeth cyfnod cyhoeddi Sedd Wág Achlysurol i ben 3ydd o Ebrill sydd bellach yn rhoi yr hawl i'r Cyngor yma gyfethol aelod.

Trafodwyd a gofynwyd i'r aelodau holi ymhellach blith yr etholwyr

Derbyn cofnodion 12fed o Fawrth 2020

Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng M Baines ag eilwyd gan y Cyng D Jones-Morris

Materion yn codi o'r cofnodion

Gan fod cymaint o amser wedi pasio ers ein cyfarfod olaf a fawr iawn o unrhyw fath o weithgaredd wedi digwydd nodwyd fod rhain problemau yn parhau ag yn debygol o barhau am rhywfaint eto. Yn benodol felly problemau Ffordd Penrhos a cyflwr ffordd Glasinfryn

Derbyn Polisi Amgylcheddol 2019-20

Mi oedd y cyngor wedi edrych tuag at greu polisi amgylcheddol ers hydref 2019 ond yn sgil ymddiswyddiad ein cyn Gadeirydd yn Tachwedd mi aeth yn anodd creu a derbyn erbyn diwedd y flwyddyn ag yn sgil y pandemic er iddo gael eu greu mi aeth yn amhosib ei dderbyn yn swyddogol tan heno.

Man cychwyn ydion a bydd angen ei adolygu yn flynyddol.

Derbynwyd y polisi

Cymeradwyo Cod ymddygiad.

'Roedd y Clerc yn ymwybodol nad oedd gan y Cyngor Ddogfen Cód Ymddygiad fedrai ei gyflwyno i aelodau wrth iddynt arwyddo i ddilyn y Cód.

Cyflwynwyd dogfen a cafodd ei chymeradwyo fel y Cód i aelodau ei ddilyn

Materion y Clerc Adrodd yn ol datblygiadau Mawrth i Gorffennaf (dros gyfnod y lockdown)

Adroddiad y Clerc

Dros y cyfnod heriol o Fawrth tan rwan cyn belled ag mae gwaith y Cyngor yn y cwestiwn mae wedi bod yn gyfnod eitha tawel.

Cafodd y cyfrifon eu cwblhau yn weddol sydyn ond y broblem fwyaf oedd eu derbyn yn ol o Gaernarfon gan fod y cyfrifwyr yn gweithio o adra ag efallai ond i mewn yn y swyddfa haner diwrnod yr wythnos.

Daeth rhestr wirio yr Archwilwyr Mewnnol (Cyngor Gwynedd) atai oedd yn gofyn am ein polisi amgylcheddol oedd i fod wedi ei anfon i Llywodraeth Cymru erbyn diwedd y Flwyddyn.

Mi oedd ein cyn Gadeirydd wedi addo cael rhywbeth at ei gilydd i ni fedru ei drafod, addasu os oedd angen, a'i fabwysiadu. Bu i'r Cadeirydd ymddiswyddo ag yn sgil yr ad-drefnu wnaethpwyd dim

gwaith ar y polisi. Erbyn dechrau'r clo mi oedd cychwyn wedi bod a bellach mae drafft wedi ei gylchredeg atoch i'w fabwysiadu heno
Yn yr un modd mae angen cymeradwyo ein Cod Ymddygiad

Mae popeth bellach yn ei le ar gyfer eu anfon i Cyngor Gwynedd i'w archwyllo ag unwaith bydd hynny wedi digwydd mi allwn eu anfon at yr Archwilwyr Allannol BDO

Cyllid

'Roedd y Cyfarfod Blyneddol gynhalwyd yn gynharach wedi derbyn y Cyfrifon a'r Adroddiad Ariannol am 2019-20 ag argymhellwyd i'r Cadeirydd ei arwyddo pan fyddai y Clerc ag yntau'n gallu cyfarfod

Tra bod taliadau angen eu gwneud mi yda ni wedi trefnu hynny drwy gael Cyng L A James a finna yn eu arwyddo.

Cyflog y Clerc wedi eu talu drwy Drosoglwyddiad Banc bob mis felly dim angen i mi arwyddo sic i fy hun.

TAW llynedd wedi ei dalu i mewn

Angen trosglwyddo arian i'r Cyfrif Cadw?

Cytunwyd trosglwyddo £10k i'r Cyfrif Cadw

Clerc i drefnu

Y Fynwent

Yn rhyfeddol dim un angladd wedi digwydd ers dechrau Mawrth

Y fynwent yn cael ei thorri yn rheolaidd

Gwair

Oherwydd y sychdwr yn Mawrth ag Ebrill a Covid 19 ni fu hadu blodau gwylltion

Bocsus blodau??

Yswiriant

Blwyddyn olaf ni hefo BHIB - er bod y Diffibs yn ychwanegol dim cynydd yn y gost oherwydd eu bod yn dod o dan Offer stryd

Materion Cyngorwyr

Cyng D Jones Morris / Cyng M Baines **Ffens Coed y Maes**

Mae y ffens yn dal heb ei gosod a'r nifer o gerddwyr wedi cynyddu dros amser y Cló

Cyng M Baines am gysylltu yn ol eto hefo Adran Priffyrdd i weld pryd mae o yn debygol i fod ar eu rhaglen waith

Cyng B Jones / Cyng M Baines **Torri Coed safle Cyf Naturiol Cymru**

Mynegwyd anfodlonrwydd ar y safon neu y maint o'r coed oedd wedi eu torri/tocio gan fod dal perygl yna o ddifrod sylweddol tae'r coed sydd weddill yn syrthio i gyfeiriad y tai 'Roedd gan Cyng Jones gyswilt yn Cyngor Gwynedd ag am gysylltu yn ol a'r person hwnnw

Clerc a Cyng M Baines **Llwybr tu cefn i Ffordd Cynan**

Bu i'r Clerc a'r Cyng M Baines dderbyn e-bost gan un o drigolion Ffordd Cynan yn cwyno am y niferoedd ag ymddygiad rhai o'r cerddwyr oedd yn defnyddio'r llwybr yma.

'Roedd y ddau wedi cysylltu a'r adran tramwy ynf Ngwynedd a bellach bydd cyfarfod safle yn digwydd. Yn ogystal a'r Cyng M Baines bydd y Cyng E Jones hefyd yno i gynrychioli y Cyngor yma.

Torri gwair

Tra bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn torri'r gwair ychwanegol i safon derbyniol hyd yma mynegwyd pryder ynglyn a'r chwyn sy'n ymddangos ar ochr ag ar ein palmentydd

Clerc i Holi Gwynedd ynglyn a chwystrellu chwyn-laddwr

Bocsus Bloda

Bu i'r Clerc gyfarfod a person oedd wedi ei argymhell iddo fel person fyddai'n edrych ar ol y bocsus i ni eleni yn sgil yr amcanbris o £1800 dderbynwyd gan ein cyflenwr llynedd

Tra fod y cyflenwr newydd wedi datgan diddordeb ar y cychwyn mi ddaeth yn ol a son am talu am lafur yn unig ag i ni brynu'r planhigion.

'Roedd y Clerc wedi holi 2 ganolfan garddio i ofyn os oedd posib agor cyfrif nid oedd yr un ohonynt yn awyddus i wneud hynny ond yn hapus derbyn 'ffurflen ordro swyddogol'

Gan nad oedd gennym hynny cytunwyd i'r Clerc archebu ffurflenni o'r fath

Nid oedd ein darpar gyflenwr wedi galw na chysylltu yn ol

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.00